Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

SSCS6A

# Sut i apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol

www.justice.gov.uk

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Ynghylch y canllaw hwn | 4 |
| **2.** | Beth i'w ystyried | 5 |
| **3.** | Gwneud eich apêl | 7 |
| **4.** | Llenwi ffurflen SSCS6 | 9 |
| **5.** | Ar ôl ichi anfon eich apêl | 20 |
| **6.** | Beth fydd Gweinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol (y Cynllun) yn ei wneud gyda'ch apêl? | 22 |
| **7.** | Wedi i Weinyddwr y Cynllun ymateb | 24 |
| **8.** | Paratoi ar gyfer y gwrandawiad Tribiwnlys | 26 |
| **9.** | Cadw mewn cysylltiad | 29 |
| **10.** | Mynd i'ch gwrandawiad | 30 |
| **11.** | Wedi i'r Tribiwnlys wneud ei benderfyniad | 35 |

# 1. Ynghylch y canllaw hwn

Bwriad y canllaw hwn yw eich helpu os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad gan Weinyddwr Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol y Llywodraeth (y Cynllun).

Mae'r Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol yn gynllun newydd gan y Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Mesothelioma (2014) i wneud taliadau i bobl sy'n gymwys sydd wedi datblygu mesothelioma ymledol o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos trwy esgeuluster yn y gwaith yn y Deyrnas Unedig ac nad ydynt yn gallu hawlio iawndal oherwydd nad yw'r cyflogwr yn bodoli bellach ac ni ellir canfod yswiriwr atebolrwydd y cyflogwr.

Mae'r Llywodraeth wedi contractio cwmni o'r enw Topmark Claims Management Ltd i fod yn 'Weinyddwr Cynllun' ar gyfer y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol. Mae hyn yn golygu bod Topmark Claims Management Ltd yn rhedeg y Cynllun Taliadau Mesotheioma Ymledol, hynny yw, nhw sy'n cael y ceisiadau i'r Cynllun ac yn gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Yn y canllaw hwn, mae '**y Cynllun**' yn cyfeirio at y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol. **'Gweinyddwr y Cynllun'** yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y corff sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau i'r Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol.

At ddibenion y daflen hon, mae **'apêl'** yn golygu gwneud cais i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am ddyfarniad annibynnol ynghylch a yw penderfyniad gan Weinyddwr y Cynllun yn gywir ai peidio. Bydd eich apêl yn cael ei hystyried gan Dribiwnlys sy'n perthyn i'r system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch hawliau pobl. Mae'r Tribiwnlys yn delio ag anghydfodau ynghylch taliadau, megis budd-daliadau nawdd cymdeithasol, cynhaliaeth plant a chynlluniau eraill y Llywodraeth, megis y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol. Mae'n gwneud penderfyniad annibynnol ynghylch apeliadau – yn y mwyafrif o achosion drwy gynnal gwrandawiad.

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau yr ydych eisoes wedi gofyn i Weinyddwr y Cynllun eu hadolygu ac rydych wedi cael **Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad** ar eu cyfer. Hwn yw'r llythyr gan Weinyddwr y Cynllun yn dweud wrthych eu bod wedi ailystyried eu penderfyniad.

# 2. Beth i'w ystyried

## A gaf i apelio?

Cewch apelio os oes gennych hawl i apelio dan y gyfraith yn unig. Pan fyddwch yn cael llythyr yn rhoi penderfyniad, mae'n rhaid iddo ddweud a oes gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad ai peidio.

Fel arfer, bydd penderfyniadau gan Weinyddwr y Cynllun yn dilyn cais i adolygu penderfyniad cynharach **yn** benderfyniadau lle mae gennych hawl i apelio. Dylai bod eich Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad yn nodi'n glir a oes gennych yr hawl i apelio ai peidio.

## A ddylwn i apelio?

Mae'r canllaw hwn yn delio â sut i apelio. Ni all ddweud wrthych a oes gennych achos da ai peidio. Bydd staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn hapus i helpu ag ymholiadau ffôn ynghylch eich apêl wrth iddi fynd drwy'r broses, ond ni allant roi eu barn ynghylch y tebygolrwydd y byddwch yn ennill neu'n colli, neu a ddylech gymryd cam penodol ai peidio.  Rhywbeth i chi ei benderfynu yw hynny.

Mae'n bosib y cewch gyngor ynghylch oes gennych chi achos da ai peidio gan gyfreithiwr neu grŵp cefnogi i ddioddefwyr clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, megis Fforwm Grwpiau Cefnogi Dioddefwyr Asbestos. Efallai y bydd rhai ohonynt yn fodlon eich helpu i baratoi eich achos a dod i'r gwrandawiad tribiwnlys gyda chi. Cewch wybodaeth am ffynonellau cymorth o:

- The Asbestos Victims Support Group Forum – www.asbestosforum.org.uk
- Mesothelioma UK – www.mesothelioma.uk.com

Bydd llawer o'r bobl sy'n gwneud apêl yn dewis cael cyngor a chymorth proffesiynol i wneud hynny. Os ydych yn penderfynu gofyn am gyngor, cofiwch wneud hynny cyn gynted â phosib – pan fyddwch yn meddwl am apelio. Peidiwch â'i adael nes bydd yr apêl wedi cychwyn.

Os bydd oedi cyn ichi gael cyngor, byddwch yn ymwybodol o'r terfyn amser ar gyfer apelio (gweler yr adran 'A yw'ch Apêl o fewn Amser' yn nes ymlaen yn y llyfryn hwn). Os yw'r terfyn amser bron â dod i ben, ni ddylech oedi cyn gwneud apêl, tra'r ydych yn cael cyngor.

Wrth benderfynu a ddylech apelio ai peidio, mae hefyd angen ichi wybod beth all ac na all y Tribiwnlys ei wneud ar eich cyfer.

Nid oes gan Dribiwnlysoedd bwerau diderfyn. Ni allant wneud ond yr hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu iddynt ei wneud.  Yn sylfaenol, mae ganddynt y pŵer i benderfynu a oes gennych hawl gyfreithiol i daliad dan y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol (y Cynllun). Yn lle'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn, gallant roi'r penderfyniad y maent hwy'n tybio oedd y penderfyniad iawn i'w wneud ar y pryd.

Cofiwch y gall y Tribiwnlys hefyd gadarnhau penderfyniad a wnaethpwyd gan Weinyddwr y Cynllun neu weithiau gall wneud penderfyniad a allai olygu eich bod mewn sefyllfa waeth nag yr oeddech.

Ni all y Tribiwnlys:

- Newid y gyfraith. Rhaid i'r Tribiwnlys weithredu'r gyfraith fel y mae'n sefyll, hyd yn oed os yw hynny'n arwain at ganlyniad sy'n annheg yn eich barn chi; na,
- Delio â chwynion gweinyddol, ynghylch pethau megis oedi neu ddiffyg cwrteisi.

Os ydych yn credu eich bod wedi cael gwasanaeth gwael gan Weinyddwr y Cynllun , dylech godi'r mater gyda nhw yn uniongyrchol. Gallwch gysylltu â Gweinyddwr y Cynllun yn dmps@topmarkcms.com neu drwy ffonio 0330 058 3930.

# 3. Gwneud eich apêl

## Y Gyfraith

Yn y gyfraith, ceir rheolau ynghylch apeliadau, ac ni all Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM dderbyn eich apêl oni bai ei bod yn cwrdd â'r meini prawf cyfreithiol hyn. Rhaid i'ch apêl:

- Fod yn ysgrifenedig;
- Bod wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg neu'n Saesneg;
- Cynnwys copi o'r Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad;
- Rhoi rhesymau dros yr apêl; a,
- Bod wedi'i llofnodi gan y ceisydd i'r Cynllun  neu eu Cynrychiolydd Personol.

Os nad yw eich apêl yn cwrdd â phob un o'r meini prawf hyn, efallai y bydd rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ei dychwelyd ichi ac efallai na fydd yn gallu ystyried eich apêl o gwbl oni bai eich bod yn darparu'r manylion hyn.

Oherwydd y gofyniad i gynnwys gwybodaeth benodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn argymell yn gryf eich bod yn defnyddio ffurflen apêl i wneud eich apêl. Mae'r ffurflen yn eich helpu i gasglu'r wybodaeth fesul cam ac mae'n cynnwys rhestr wirio y gallwch ei defnyddio i sicrhau eich bod wedi cynnwys popeth. Mae manylion ynghylch ble i gael y ffurflen i'w gweld dros y dudalen ac ar y wefan Justice. Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn cwestiynau ichi ynghylch pa fath o wrandawiad yr hoffech, dyddiadau yr hoffech i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eu hosgoi ac a oes gennych unrhyw anghenion arbennig.

Os yw'n well gennych, cewch wneud eich apêl drwy ysgrifennu llythyr yn unig, ond efallai y byddwch yn gadael allan rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith drwy wneud hynny. Hefyd, efallai y bydd rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ysgrifennu atoch ar wahân i ofyn am eich gofynion o ran y gwrandawiad a'r dyddiadau rydych ar gael, ac mae hyn yn creu oedi yn y broses.  Os ydych eisiau gwneud apêl drwy ysgrifennu eich llythyr eich hun, defnyddiwch y ffurflen apêl fel canllaw a rhowch bopeth y mae'r ffurflen yn gofyn amdano yn eich llythyr chi.

## Terfynau amser

Ar gyfer apeliadau'r Cynllun, mae gennych un mis calendr o'r dyddiad yr anfonwyd yr Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad gan Weinyddwr y Cynllun atoch i apelio. Nid yw eich apêl wedi ei wneud nes ei bod wedi cyrraedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Er enghraifft, os anfonwyd yr Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad atoch ar 15 Mawrth, rhaid i'ch apêl gyrraedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM erbyn 15 Ebrill fan bellaf.

Os byddwch yn apelio y tu allan i'r terfyn amser, rhaid ichi roi eich rhesymau pam mae'r apêl yn hwyr. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau, efallai y bydd eich apêl yn cael ei dychwelyd atoch. Mae adran arbennig ar y ffurflen apêl lle gallwch roi rhesymau dros gyflwyno'n hwyr.

Cofiwch, os bydd y terfyn amser yn fuan iawn, efallai bydd eich apêl yn hwyr erbyn iddo gyrraedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, er nad yw'n rhy hwyr ar y dyddiad yr ydych yn ei anfon drwy'r post.

Os na fydd y Gweinyddwr y Cynllun yn gwrthwynebu'r rhesymau dros gyflwyno eich apêl yn hwyr, yn gyffredinol bydd yr apêl yn mynd rhagddi fel petai wedi cyrraedd mewn pryd. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd Gweinyddwr y Cynllun yn gwrthwynebu'r ffaith fod eich apêl yn hwyr.

## Y ffurflen apêl

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn argymell yn gryf eich bod yn defnyddio ffurflen apêl i wneud eich apêl. Bydd y ffurflen yn eich helpu i gofnodi'r math o wybodaeth sydd ei hangen drwy broses cam wrth gam, syml.

Y ffurflen y dylai pobl sy'n gwneud apêl ynghylch penderfyniadau gan Weinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol ei defnyddio yw **SSCS6**.

Gallwch gael gafael ar ffurflenni:

- Oddi ar y wefan www.justice.gov.uk; neu
- Oddi ar y wefan www.gov.uk; neu,
- Drwy gysylltu â Gweinyddwr y Cynllun ar 0330 058 3930.

Os oes arnoch angen cyngor ynghylch llenwi'r ffurflen apêl gallwch ffonio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 0300 123 1142 os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, neu 0300 790 6234 os ydych yn byw yn yr Alban.

Yn yr adran nesaf ceir cyfarwyddiadau ar sut i lenwi ffurflen SSCS6.

# 4. Llenwi ffurflen SSCS6

Nid oes angen i bawb lenwi pob rhan o'r ffurflen. Mae gan bobl sy'n gwneud apeliadau wahanol amgylchiadau, felly efallai y gwelwch mai dim ond rhai rhannau o'r ffurflen y mae angen ichi eu llenwi. **Fodd bynnag, mae'n rhaid i bawb lenwi Adrannau 1, 2, 5, 6 ac 8.**

Dylech ddefnyddio inc du i lenwi'r ffurflen. Mae hyn oherwydd bod rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM lungopïo'r ffurflen a'i hanfon at Weinyddwr y Cynllun, ac nid yw inc lliw - hyd yn oed inc glas - yn dangos yn dda ar lungopïau. Dylech hefyd lenwi'r ffurflen gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU fel bod yr holl fanylion pwysig yn glir, oni bai fod y ffurflen yn dweud wrthych am wneud fel arall

## Adran 1 Ynghylch y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn

Mae Adran 1 yn ymwneud â'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Bydd o gymorth os bydd gennych gopi o'ch llythyr penderfyniad, yr 'Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad' wrth law pan fyddwch yn llenwi'r rhan hon o'r ffurflen. Mae'r gyfraith yn dweud bod **rhaid ichi gynnwys copi o'r Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad gyda'ch apêl.** Mae'r adran hon yn eich helpu i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud hynny.

Yn yr adran hon mae angen ichi dicio'r blwch i ddangos eich bod yn cynnwys copi o'r Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad.

## Adran 2 Ynghylch y ceisydd i'r Cynllun

Y ceisydd yw'r unigolyn y gwnaed y cais i'r Cynllun yn ei enw. Dan Ddeddf Mesothelioma (2014), y ceisydd i'r cynllun fydd naill ai'r unigolyn sydd â mesothelioma ymledol **NEU** ddibynnydd cymwys unigolyn oedd â mesothelioma ymledol sydd wedi marw bellach.

Mae Adran 2 yn gofyn am wybodaeth ynghylch yr unigolyn a wnaeth y cais i'r Cynllun fel bod Gweinyddwr y Cynllun yn gwybod pwy yw'r unigolyn hwnnw pan fyddwn yn gofyn iddynt esbonio pam y daethant i'w penderfyniad ynghylch y cais i'r Cynllun.

Yn yr adran hon rhowch y manylion canlynol am y **ceisydd:**

- Teitl, enw(au) cyntaf a chyfenw;
- Cyfeiriad;
- Rhif ffôn yn ystod y dydd (os yn berthnasol); a,
- Rhif ffôn symudol (os yn berthnasol)
- Rhif Yswiriant Gwladol (mae angen hwn i helpu i ddod o hyd i apeliadau ar systemau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM).

Pan ddywedwn 'teitl', rydym yn golygu pethau fel 'Mr', 'Mrs' neu 'Miss'

Bydd rhif ffôn y ceisydd yn ddefnyddiol i ni os bydd angen inni gysylltu â nhw ar fyr rybudd, er enghraifft os bydd dyddiad gwrandawiad ar gael ynghynt na'r disgwyl neu os yw'n haws esbonio rhywbeth iddynt dros y ffôn yn hytrach nag yn ysgrifenedig.

Os yw'r unigolyn a wnaeth y cais i'r Cynllun wedi marw ers iddynt gyflwyno eu cais, mae'r gyfraith yn caniatáu i rywun a elwir yn **Gynrychiolydd Personol** barhau â'u cais.  Mae hyn yn cynnwys gweithredu yn dilyn canlyniad adolygiad o benderfyniad Gweinyddwr y Cynllun. Mae 'Cynrychiolydd Personol' yn benodiad a gydnabyddir yn y gyfraith wedi i'r ceisydd farw. Fel arfer, y Cynrychiolydd Personol fydd ysgutor ewyllys yr unigolyn ymadawedig, neu weinyddwr eu hystad.

Os ydych yn Gynrychiolydd Personol i'r ceisydd i'r Cynllun sydd wedi marw ers iddynt gyflwyno eu cais, dylech roi eu manylion **nhw** yn **Adran 2** a'ch manylion **chi** yn **Adran 3.**

## Adran 3 Ynghylch Cynrychiolydd Personol y ceisydd

Dan Ddeddf Mesothelioma (2014), pan fydd ceisydd i'r Cynllun yn marw ar ôl cyflwyno eu cais, gall eu Cynrychiolydd Personol barhau â'u cais. 'Cynrychiolydd Personol' yw **rhywun** sy'n **gweinyddu ystad unigolyn ymadawedig, naill ai fel ysgutor neu fel y gweinyddwr.**

| |
|---|
| **PWYSIG:** Mae ystyr cyfreithiol penodol i'r term 'Cynrychiolydd Personol' ac **nid yw'n berthnasol ond** pan fo'r **ceisydd i'r Cynllun wedi marw** ers cyflwyno eu cais. Dylid gwahaniaethu rhwng hwn a swyddogaeth eangach 'cynrychiolydd' fel sydd yn Adran 4. |

**Dim ond** rhywun sy'n apelio fel **Cynrychiolydd Personol** ar ran ceisydd sydd wedi marw dylai lenwi'r adran hon**.**

Os ydych yn helpu'r ceisydd a dim mwy na hynny – neu'n helpu Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw – gyda'u hapêl, byddwch yn gweithredu fel eu **cynrychiolydd** a bydd angen ichi lenwi Adran 4. **Dim ond** i gofnodi manylion rhywun sy'n Gynrychiolydd Personol i geisydd i'r Cynllun sydd wedi marw y dylid defnyddio Adran 3.

Yn Adran 3, bydd angen i'r Cynrychiolydd Personol roi:

In Section 3, the Personal Representative will need to provide:

- Eu henw
- Eu cyfeiriad
- Eu rhif ffôn cyswllt

Cofiwch, mae'r adran hon ar gyfer pobl sy'n **Gynrychiolydd Personol i geisydd i'r Cynllun sydd wedi marw** ers cyflwyno eu cais.  Ni ddylech lenwi'r adran hon os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd yn unig i'r unigolyn sy'n gwneud apêl.

# Adran 4 Ynghylch cynrychiolydd y ceisydd (os oes un)

Mae'r adran hon yn ymwneud â **chynrychiolydd** y ceisydd (neu rywun sy'n cynrychioli Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw), os oes un. Nid oes gan bawb gynrychiolydd ac os nad oes gennych un, gallwch anwybyddu'r adran hon a mynd yn syth i Adran 5. Dim ond os oes gan y ceisydd gynrychiolydd (neu os oes gan Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) y dylid llenwi'r adran hon.

Mae cynrychiolydd yn cyfeirio at rywun sy'n cynorthwyo ceisydd sy'n fyw (neu'n cynorthwyo Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) gyda'u hapêl. Gall hyn fod mewn swyddogaeth ffurfiol (megis rhywun sydd wedi'i benodi'n gyfreithiol i weithredu ar ran y ceisydd, fel cyfreithiwr) neu mewn swyddogaeth anffurfiol (megis sefydliad fel elusen cefnogi dioddefwyr asbestos, neu ffrind neu berthynas).

**PWYSIG:** Cofiwch – mae 'cynrychiolydd' yn wahanol i Gynrychiolydd Personol (fel sydd yn Adran 3 o'r ffurflen). Cynrychiolydd yw rhywun sy'n cynorthwyo rhywun arall gyda'u cais, fel cefnogwr. Mae ystyr cyfreithiol penodol i Gynrychiolydd Personol ac nid yw'n berthnasol oni bai fod y ceisydd i'r Cynllun wedi marw.

Mae gan yr unigolyn sy'n gwneud apêl yr hawl i gynrychiolydd o'u dewis, ond rhaid iddynt drefnu hyn eu hunain. Nid oes rhaid i gynrychiolydd fod â chymhwyster cyfreithiol. Gall ef neu hi fod yn ffrind neu berthynas, neu'n gyfreithiwr, ond cadwch mewn cof y bydd y cynrychiolydd yn cael gweld tystiolaeth sy'n berthnasol i'r apêl, megis adroddiadau meddygol a all fod yn gyfrinachol. Wrth ddewis cynrychiolydd, dylech gofio beth yw swyddogaeth cynrychiolydd mewn Tribiwnlys.

Dylai bod cynrychiolydd da yn gallu:

- Eich cynghori ynghylch y math o dystiolaeth fydd yn helpu eich achos;
- Cael gafael ar y dystiolaeth honno ichi neu eich helpu i gael gafael arni;
- Cysylltu â Gweinyddwr y Cynllun i weld a ellir setlo'r achos heb fynd i wrandawiad Tribiwnlys;
- Ymchwilio i'r gyfraith;
- Paratoi datganiad ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn crynhoi eich achos;
- Eich cynghori ar faterion cysylltiedig, gan gynnwys buddion eraill; a,
- Delio â goblygiadau penderfyniad y Tribiwnlys, boed yn ffafriol neu fel arall.

Dim ond gan gynrychiolydd hyfforddedig o asiantaeth ag enw da yr ydych yn debygol o gael cefnogaeth o'r fath. Mae'n bosib y gallai cynrychiolydd gwael ddifetha eich siawns o lwyddo. Bydd y mwyafrif o bob sydd â chynrychiolydd yn cael eu cynrychioli gan sefydliad proffesiynol megis canolfan gyngor neu wasanaeth hawliau lles.

Yn yr adran hon o'r ffurflen bydd angen ichi:

- Roi enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n eich cynrychioli;
- Rhoi rhif ffôn y sefydliad neu'r unigolyn; a,
- Rhoi enw a chyfeiriad y sefydliad maent yn gweithio iddo (os yw'n berthnasol).

Byddwn yn cysylltu â'r cynrychiolydd ynghylch yr apêl ac yn rhoi gwybod iddynt am bethau fel dyddiadau gwrandawiadau, a byddwn yn gofyn i Weinyddwr y Cynllun anfon copi o'r papurau sy'n ymwneud â'u hapêl at y cynrychiolydd yn ogystal â'r ceisydd.

Os ydych yn dymuno cael cynrychiolydd ond nid ydych wedi llwyddo i gael un hyd yma, gallwch gyflwyno eich apêl a dweud wrthym pan fyddwch wedi cael cynrychiolydd yn nes ymlaen.  Fodd bynnag, mae'n rhaid ichi wneud hyn yn ysgrifenedig. Mae hyn oherwydd bod arnom angen caniatâd ysgrifenedig gan y ceisydd i gymryd cyfarwyddiadau gan rywun sy'n gweithredu ar eu rhan.  Yn aml, bydd y cynrychiolydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.

Cofiwch, hyd yn oed os oes gennych gynrychiolydd, mae bron yn sicrwydd y bydd y Tribiwnlys yn y gwrandawiad eisiau siarad yn uniongyrchol â chi, wyneb yn wyneb gan ofyn cwestiynau ichi a gwrando ar eich atebion. Mae hyn oherwydd y bydd gan y ceisydd wybodaeth a phrofiad uniongyrchol o'r pethau y bydd y Tribiwnlys eisiau clywed amdanynt fwyaf. Dim ond fersiwn ail-law y gallai eu cynrychiolydd ei roi.

# Adran 5 Ynghylch yr apêl

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r rhesymau dros apêl y ceisydd, pam maent yn credu bod penderfyniad Gweinyddwr y Cynllun ynghylch eu cais yn anghywir ac, os yw'n berthnasol, y rhesymau pam mae eu hapêl yn hwyr.

## Seiliau'r apêl

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r **rhesymau** dros eich apêl neu 'seiliau' eich apêl a pha un ai a yw o fewn y terfyn amser ai peidio. Yn yr adran 'Seiliau'r Apêl' dylech ysgrifennu'r rhesymau pam rydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir. Nid oes yn angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU i lenwi'r adran hon.

Nid oes rhaid i'ch rhesymau fod yn faith neu wedi eu hysgrifennu mewn iaith gyfreithiol, ond mae angen ichi ddweud mwy na dim ond, 'Rwy'n anghytuno'. Dylech esbonio mewn ffordd syml pam rydych yn credu bod y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn yn anghywir. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi ddweud beth rydych chi'n meddwl dylai'r penderfyniad iawn fod.

Y mwyaf penodol ydych ynghylch y pwyntiau sy'n destun dadl, yr hawsaf y bydd hi i'r Tribiwnlys ddeall beth yw eich cwyn a chanolbwyntio ar hyn cyn y gwrandawiad. Mae croeso ichi atodi tystiolaeth yr ydych yn teimlo y gallai gefnogi eich apêl, ond ni ddylech oedi cyn apelio tra'r ydych yn dod o hyd i'r dystiolaeth.

Os oes arnoch angen mwy o le i ysgrifennu eich rhesymau, gallwch atodi darn o bapur ar wahân.

## A yw'ch apêl o fewn amser?

Mae'r ail ran o Adran 5 yn gofyn ichi gadarnhau a yw eich apêl o fewn amser ai peidio. Mae'r adran **Terfynau Amser** yn gynharach yn y llyfryn hwn **(gweler tudalen 5)** yn dweud mwy wrthych am y ffordd y mae'r rhain yn cael eu cyfrifo ac efallai y byddwch eisiau cyfeirio'n ôl at yr adran honno i wirio'r manylion.

Bydd eich apêl yn cael ei hystyried yn hwyr os bydd yn cyrraedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fwy nag un mis calendr ar ôl dyddiad yr Hysbysiad o Ganlyniad Adolygiad.

Os yw eich apêl yn hwyr, neu os bydd yn hwyr erbyn iddo gyrraedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, bydd rhaid ichi roi rhesymau pam mae'n hwyr. Os bydd apêl yn cyrraedd yn hwyr ac nad ydych wedi rhoi rhesymau, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dychwelyd yr apêl atoch. Defnyddiwch yr adran hon i gofnodi rhesymau dros gyflwyno'n hwyr, os yw hynny'n berthnasol. Nid oes yn angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU i lenwi'r adran hon.

Fodd bynnag, bydd apêl sy'n cyrraedd yn hwyr **gyda rhesymau dros gyflwyno'n hwyr** wedi'u rhoi yn cael ei thrin gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel apêl a gyrhaeddodd o fewn amser, oni bai fod Gweinyddwr y Cynllun yn ei gwrthwynebu. Os ceir gwrthwynebiad, efallai y byddwn yn anfon copi ohono atoch ac efallai y byddwn yn eich gwahodd i wneud sylwadau arno cyn ei gyfeirio at Farnwr. Bydd y Barnwr yn adolygu eich achos ac yn penderfynu a yw'r dadleuon yn rhai dilys ai peidio.

## Adran 6 Ynghylch eich dewis o wrandawiad

Mae'r adran hon yn ymwneud â sut yr hoffech i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad ynghylch eich apêl.

Fel arfer, bydd gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trefnu gwrandawiad ar gyfer eich apêl a bydd disgwyl i chi neu eich cynrychiolydd fod yn bresennol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn galw hyn yn 'wrandawiad LLAFAR'.

Mewn gwrandawiad llafar byddwch chi, a'ch cynrychiolydd os oes gennych un, yn cael cyfle i gyflwyno eich achos yn bersonol i'r Tribiwnlys ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae gan Weinyddwr y Cynllun hefyd yr hawl i ddod i'r gwrandawiad llafar a chyflwyno eu hachos. Gall y Tribiwnlys hefyd gyfarwyddo pa fath o wrandawiad a gynhelir.

Y dewis arall yn hytrach na gwrandawiad llafar yw bod y tribiwnlys yn dod i benderfyniad ynghylch eich achos ar sail y papurau a ddarperir iddynt. Ni fyddwch chi na gweinyddwr y Cynllun yn bresennol a bydd y Tribiwnlys yn dod i benderfyniad ar sail yr hyn sydd yn y papurau apêl. Bydd y Tribiwnlys yn ystyried eich llythyr apêl, unrhyw dystiolaeth ategol yr ydych wedi'i darparu ac ymateb Gweinyddwr y Cynllun i'ch apêl. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cyfeirio at hyn fel 'gwrandawiad ar sail y PAPURAU'. Cynhelir gwrandawiad ar sail y papurau os bydd pob parti yn cytuno i hynny a bod neb wedi gofyn am wrandawiad llafar. Bydd Gweinyddwr y Cynllun hefyd yn cael cyfle i ddweud pa fath o wrandawiad y byddent yn ei ffafrio.

Gall y Tribiwnlys hefyd gyfarwyddo pa fath o wrandawiad a gynhelir.  Cynhelir gwrandawiad llafar dan yr amgylchiadau isod yn unig:

- Os ydych chi'n gofyn am wrandawiad llafar; neu
- Os yw Gweinyddwr y Cynllun yn gofyn am wrandawiad llafar; neu
- Os yw'r Tribiwnlys ei hun yn penderfynu y byddai gwrandawiad llafar yn fwy priodol na phenderfynu ynghylch yr achos ar sail y papurau.

Os byddwch yn newid eich meddwl ar ôl dychwelyd y ffurflen Hysbysiad o  Apêl (ffurflen SSCS6) a'ch bod eisiau newid o gael penderfyniad ynghylch eich achos ar sail y papurau i wrandawiad llafar, neu'r ffordd arall, rhowch wybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM cyn gynted â phosib.  Os nad ydych wedi cael dyddiad gwrandawiad, gallwch wneud hyn dros y ffôn. Os ydych wedi cael dyddiad gwrandawiad, fodd bynnag, bydd angen ichi wneud hyn yn ysgrifenedig. Mae'n rhy hwyr i newid ar ôl i'r Tribiwnlys wneud ei benderfyniad ynghylch eich apêl.

Un peth y mae'n debygol y byddwch eisiau gwybod pan fyddwch yn penderfynu a ydych eisiau gwrandawiad ai peidio yw ble byddai gwrandawiad eich apêl yn cael ei gynnal. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnal gwrandawiadau apêl mewn rhwydwaith o dros 100 o leoliadau ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae lleoliad Tribiwnlys yn y mwyafrif o ddinasoedd a threfi. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ceisio trefnu gwrandawiad yn y lleoliad sydd agosaf atoch chi. Ysgrifennwch atom os yw'r lleoliad rydym yn ei gynnig ichi yn anghyfleus. Mae rhestr o'r holl leoliadau ar gael ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk.

Os byddai'n well gennych gael gwrandawiad ond ni fyddech yn gallu teithio i'r lleoliad Tribiwnlys, oherwydd bod gennych anabledd mor ddifrifol sy'n golygu eich bod yn gaeth i'r tŷ, gallwch ofyn am yr hyn a elwir yn wrandawiad ' tu allan i ganolfan'. Byddai hyn yn golygu gwneud eithriad, sef bod y Tribiwnlys yn gwrando eich apêl yn eich cartref neu mewn lleoliad gwahanol. Dylid darparu llythyr gan eich meddyg i gefnogi cais am wrandawiad tu allan i ganolfan, yn cadarnhau na allwch deithio o gwbl, ddim hyd yn oed mewn tacsi.

Mae gan bron bob un o'n lleoliadau tribiwnlys fynediad i bobl ag anableddau. Os hoffech gadarnhad y bydd y lleoliad y byddwch yn ei ddefnyddio yn addas ar gyfer eich anghenion unigol chi, bydd cyfle ichi nodi eich gofynion yn Adran 7 o'r ffurflen apêl.

Wedi ichi benderfynu pa fath o wrandawiad rydych eisiau, ticiwch y blwch i ddangos eich dewis ar y ffurflen. Mae 2 ddewis:

- 'Rwyf eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawiad ynghylch fy apêl' neu
- 'Rwyf eisiau i fy apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau'

Ticiwch un o'r blychau i wneud eich dewis.

Os ydych wedi ticio'r blwch i ddweud eich bod eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawiad, ewch ymlaen i Adran 7. Os ydych wedi ticio'r blwch i ddweud eich bod eisiau i'ch apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau, gallwch anwybyddu Adran 7 a mynd yn syth i Adran 8.

# Adran 7 Gwrandawiadau llafar – eich anghenion a'ch gofynion

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch anghenion a'ch gofynion ar gyfer gwrandawiad llafar. Os nad ydych eisiau gwrandawiad llafar, dylech anwybyddu'r adran hon. Os oes arnoch angen ysgrifennu yn unrhyw un o'r blychau yn yr Adran hon, nid oes angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

## Cwestiwn 1 – Pryd rydych ar gael

**Oherwydd eich bod eisiau bod yn bresennol yn y gwrandawiad, dylech ysgrifennu yma unrhyw ddyddiadau neu amseroedd pan na fyddwch ar gael i ddod i wrandawiad.** Gall hyn fod yn ddyddiad rheolaidd pan nad ydych ar gael, er enghraifft, bob dydd Iau oherwydd ymrwymiadau domestig neu ymrwymiadau eraill, neu efallai eich bod yn ymwybodol o ddyddiadau penodol pan na fyddwch ar gael, megis apwyntiadau ysbyty neu wyliau wedi'u trefnu eisoes. Dylech ystyried ar ba ddyddiadau na fyddwch ar gael am y 6 mis nesaf. Cofiwch, gallwch ddweud wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am unrhyw newid i'r dyddiadau hyn drwy ein ffonio neu ysgrifennu atom.

## Cwestiwn 2 – Eich anghenion

Mae angen inni wneud yn siŵr fod eich gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn lleoliad sy'n addas i chi ac y gallwch gael mynediad iddo'n rhwydd. Dywedwch wrthym yn yr adran hon am unrhyw anghenion penodol sydd gennych. Gall hyn fod yn rhywbeth fel dolen glyw neu ofynion arbennig oherwydd anabledd neu broblem symudedd.

## Cwestiwn 3 – Arwyddwr neu gyfieithydd ac anghenion ieithyddol

Dywedwch wrthym yma os oes angen cyfieithydd neu arwyddwr arnoch i'ch helpu yn y gwrandawiad. Fel y llysoedd, mae tribiwnlysoedd yn mynnu defnyddio cyfieithwyr ac arwyddwyr annibynnol, proffesiynol. Nid yw dibynnu ar ffrind neu berthynas yn dderbyniol. Gall eich cyfieithydd fod yn rhywun sy'n cyfieithu ar lafar o'r Saesneg i iaith arall, neu gall fod yn ddehonglydd iaith arwyddion sy'n cyfieithu iaith lafar i Iaith Arwyddion Prydain. Os ydych yn ticio 'Oes' yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi hefyd gofnodi pa iaith a thafodiaith sydd eu hangen.

Pan fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trefnu eich gwrandawiad, byddwn yn sicrhau y darperir cyfieithydd/dehonglydd sy'n cwrdd â'ch anghenion.

## Cwestiwn 4 – Eich rhybudd o wrandawiad

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ichi o'ch gwrandawiad. Mae hyn yn rhoi digon o amser ichi baratoi ar gyfer eich gwrandawiad, ond mae hefyd yn atal Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM rhag cynnig gwrandawiad ichi sy'n dod ar gael ar fyr rybudd oherwydd, er enghraifft, fod gwrandawiad arall wedi'i ganslo. Os yw'n well gennych, gallwn hefyd roi llai na 14 diwrnod o rybudd ichi, ond

dim ond os ydych yn cytuno i hynny. Os oes gennych gynrychiolydd, efallai y byddwch eisiau trafod y mater hwn gyda nhw oherwydd efallai y bydd arnynt angen 14 diwrnod o rybudd o unrhyw wrandawiad. Nid yw hyn yn golygu y byddwn yn rhoi llai na 14 diwrnod o rybudd o'r gwrandawiad ichi a dim mwy na hynny, ond mae'n golygu y gallwn wneud hynny os bydd dyddiad cynharach ar gael.

Os ydych chi'n cytuno i gael llai na 14 diwrnod o rybudd o'ch gwrandawiad, ticiwch y blwch 'Ydw' yma, fel arall ticiwch 'Nac ydw'. Os ydych wedi ticio 'Ydw', gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich rhif ffôn yn Adran 1, gan y bydd angen inni eich ffonio i drefnu gwrandawiad ar fyr rybudd.

## Adran 8 Llofnodi'r ffurflen apêl

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r llofnod ar gyfer y ffurflen apêl. Rhaid llofnodi ffurflen apêl er mwyn iddi fod yn ddilys. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol. Llofnodwch eich enw yma, ysgrifennwch eich enw mewn priflythrennau yn y blwch o dan y llofnod a chofnodwch y dyddiad pan wnaethoch lofnodi'r ffurflen yn y blwch priodol. Os na fyddwch yn llofnodi eich ffurflen apêl, efallai y bydd rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddychwelyd yr apêl atoch er mwyn ichi ei llofnodi.

1. Os chi yw'r ceisydd yn cynrychioli chi'ch hun, mae'n rhaid ichi lofnodi'r adran hon; neu
2. Os ydych yn Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw a'ch bod wedi llenwi Adran 3, mae'n rhaid ichi lofnodi'r adran hon; neu
3. Os chi yw cynrychiolydd y ceisydd (neu gynrychiolydd Cynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) a'ch bod wedi llenwi Adran 4, rhaid i'r **ceisydd** (neu Gynrychiolydd Personol ceisydd sydd wedi marw) lofnodi'r adran hon. Mae angen llofnod y ceisydd i ddangos eu bod yn rhoi caniatâd i chi weithredu ar eu rhan ac i anfon atoch wybodaeth ynghylch eu hapêl, megis dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad llafar (os ydynt wedi gofyn am hyn) a chopïau o unrhyw bapurau a anfonir atynt.

## Beth i'w wneud nawr

### Ble i anfon eich apêl

Mae'r adran hon yn dweud wrthych ble i anfon eich apêl. Mae ble'r ydych yn anfon eich apêl yn dibynnu ar ble'r ydych yn byw. Mae dau gyfeiriad ar gyfer anfon eich apêl iddynt ac mae'r rhain i'w gweld ar y ffurflen apêl.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, anfonwch eich apêl i:

HM Courts & Tribunals Service
SSCS Appeals Centre

PO Box 1203

BRADFORD

BD1 9WP

Os ydych yn byw yn yr Alban, anfonwch eich apêl i:

HM Courts & Tribunals Service
SSCS Appeals Centre

PO Box 27080

GLASGOW

G2 9HQ

Bydd arnoch angen darparu eich amlen eich hun â chyfeiriad a stamp arni i wneud hyn.

Os ydych yn byw dramor ar hyn o bryd, dylech anfon eich apêl i'r swyddfa Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a fyddai fel arfer yn ymdrin â'ch apêl yn seiliedig ar:

- Eich man cyrraedd ym Mhrydain Fawr os ydych wedi dewis cael gwrandawiad llafar; neu
- Y man lle'r oeddech yn preswylio'n flaenorol ym Mhrydain Fawr os nad ydych yn bwriadu bod yn bresennol mewn gwrandawiad.

## Gwirio'r ffurflen apêl

### Rhestr wirio

Mae rhestr wirio ar ddiwedd y ffurflen apêl. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio hon, ond bydd yn eich helpu i wneud yn siŵr eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen.

### Fformatau eraill

Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn rhoi'r rhifau i'w ffonio os oes arnoch angen y ffurflen apêl mewn fformat arall, megis print bras neu yn Saesneg.

# 5. Ar ôl ichi anfon eich apêl

## A fydd fy apêl yn cael ei derbyn?

Wedi ichi anfon eich apêl, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ei gwirio i wneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol er mwyn iddi gael ei derbyn fel apêl ddilys.

Os oes unrhyw broblemau gyda'ch apêl, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ei dychwelyd atoch gyda llythyr yn esbonio beth yw'r broblem a beth y gallwch ei wneud i ddatrys y broblem. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ddilyn y cyngor a roddir yn y llythyr. Os na wnewch hynny, efallai y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn 'dileu' eich apêl, neu'n dod â'ch apêl i ben, oherwydd nad ydych wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mewn rhai amgylchiadau, gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ganiatáu i'ch apêl gael ei derbyn, hyd yn oed os nad yw'n cwrdd â phob un o'r gofynion. Gelwir y broses hon yn 'hepgor' gofyniad, sy'n golygu y gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, mewn rhai amgylchiadau, ganiatáu i'r apêl fynd rhagddi drwy hepgor rhai o'r gofynion technegol sydd fel arfer yn orfodol. Mae'r amgylchiadau lle gellir gwneud hyn yn amrywio'n sylweddol, felly, cyn belled â phosib, dylech ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen yn hytrach na dibynnu ar ddisgwyliad y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn caniatáu hepgoriad.

Os gellir derbyn eich apêl fel un ddilys, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon llythyr cydnabyddiaeth atoch. Yn dibynnu a ydych eisoes wedi darparu manylion eich gofynion ar gyfer y gwrandawiad (er enghraifft, ar y ffurflen apêl), efallai y bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn anfon ffurflen ymholiad atoch i holi beth yw'r rhain. Os ydych wedi gwneud apêl ar y ffurflen Hysbysiad o Apêl SSCS6 a'ch bod wedi ateb pob un o'r cwestiynau, ni ddylai bod angen gwneud hyn.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn anfon copi o'ch apêl at Weinyddwr y Cynllun ac yn gofyn iddynt ddarparu 'ymateb' i'ch apêl. Adroddiad ynghylch eich apêl gan Weinyddwr y Cynllun yw'r ymateb ac mae'n esbonio sut y daethant i'w penderfyniad. Mae gan Weinyddwr y Cynllun hefyd yr hawl i ofyn am fwy o amser ac, os bydd hynny'n digwydd, bydd barnwr yn ystyried a yw eu cais yn un dilys ai peidio. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd hyn yn digwydd.

Wedi i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM  gael eich apêl a'i chofrestru, bydd yn paratoi ffeil achos ar eich cyfer ac yna'n trosglwyddo eich apêl i un o'r canolfannau rhanbarthol sy'n delio â'r ardal yr ydych yn byw ynddi. Mae hyn yn digwydd gyda phob apêl heblaw'r rhai yr ymdrinnir â nhw yn yr Alban, lle caiff yr apêl ei derbyn a'i symud ymlaen yn yr un swyddfa. Ceir saith swyddfa ar hyd a lled Cymru, Lloegr a'r Alban sy'n ymdrin ag apeliadau sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol, ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldeb am ardal ddaearyddol benodol o'r wlad. Mae'r swyddfeydd wedi'u lleoli yn:

- Birmingham;
- Caerdydd;
- Glasgow;
- Leeds;
- Lerpwl;
- Newcastle;
- Sutton.

Os yw eich apêl yn ddilys, bydd y llythyr a gewch yn cynnwys cyfeiriad y ganolfan ranbarthol fydd yn ymdrin â'ch apêl a'r rhif ffôn perthnasol. Bydd y swyddfa honno yn cymryd pob cam pellach yn eich apêl, megis trefnu gwrandawiad ac ateb eich ymholiadau.

# 6. Beth fydd Gweinyddwr y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol (y Cynllun) yn ei wneud gyda fy apêl?

## Ystyried yr apêl

Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn ailedrych ar eu penderfyniad ar ôl ystyried yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn eich apêl ac unrhyw dystiolaeth newydd neu ychwanegol rydych wedi'i darparu.  Mae gan Weinyddwr y Cynllun yr opsiwn, ar unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad Tribiwnlys, i newid y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn os ydynt yn credu bod rhesymau dros wneud hynny. Os byddant yn penderfynu adolygu'r penderfyniad o'ch plaid chi, bydd Gweinyddwr y Cynllun yn rhoi gwybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM am hyn a bydd eich apêl yn colli grym yn awtomatig (hynny yw, bydd yn dod i ben). Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd hyn yn digwydd. Bydd gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniad newydd Gweinyddwr y Cynllun hefyd os ydych yn dymuno ei herio. Os yw Gweinyddwr y Cynllun yn bwriadu gwneud hyn, byddant yn cysylltu â chi yn gyntaf i holi a ydych yn fodlon ar y penderfyniad newydd ac ni fydd yn bwrw ymlaen oni bai eich bod yn cytuno.

## Gwrthwynebu'r apêl

Mae gan Weinyddwr y Cynllun hefyd yr hawl i wrthwynebu eich apêl os ydynt o'r farn fod gwall yn eich apêl am ryw reswm. Yn gyffredinol, bydd hyn oherwydd eu bod yn credu bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM o bosib heb sylwi ar rywbeth ac wedi derbyn apêl sy'n annilys ym marn Gweinyddwr y Cynllun.  Gall Weinyddwr y Cynllun wrthwynebu apêl am nifer o resymau, ond y prif resymau yw:

- Oherwydd ei bod yn hwyr a bod y rhesymau dros gyflwyno'n hwyr yn afresymol; neu
- Oherwydd nad yw'n cynnwys digon o wybodaeth i ganfod y penderfyniad neu roi sail yr apêl; neu
- Oherwydd nad oes siawns rhesymol y bydd yn llwyddiannus.

Os bydd Gweinyddwr y Cynllun yn gwrthwynebu eich apêl, byddant yn ysgrifennu at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.  Efallai y byddwn wedyn yn anfon copi o'u gwrthwynebiad atoch ac efallai y byddwn yn eich gwahodd i wneud sylwadau arno cyn ei gyfeirio at Farnwr. Bydd y Barnwr yn adolygu eich achos ac yn penderfynu a yw dadleuon Gweinyddwr y Cynllun yn rhai dilys ai peidio.

Os bydd eich apêl yn mynd yn ei blaen heb wrthwynebiad, bydd Gweinyddwr y Cynllun yn anfon atoch chi ac at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM gopi o'u 'hymateb' i'ch apêl. Bydd hwn yn cyrraedd fel bwndel o bapurau. Yn dibynnu ar natur eich achos, gallai'r bwndel papurau fod yn fawr iawn. Peidiwch â gadael i faint y bwndel eich digalonni; byddwch eisoes yn gyfarwydd â llawer o'r cynnwys, megis copïau o'ch ffurflen hawlio. Gall rhai ymatebion fod yn llawer byrrach oherwydd y materion dan sylw. Mae'r ymateb yn cynnwys:

- Y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn;
- Crynodeb o'r ffeithiau perthnasol;
- Y rhesymau dros y penderfyniad;
- Dyfyniadau o'r gyfraith berthnasol;
- Copi o'ch ffurflen neu lythyr apêl;
- Copïau o ddogfennau sy'n berthnasol i'r apêl (e.e. ffurflen gais i'r Cynllun, datganiad tyst).

Bydd yr ymateb yn cyrraedd rhai wythnosau wedi ichi anfon eich apêl yn wreiddiol. Os ydych wedi rhoi enw cynrychiolydd ar eich ffurflen apêl, anfonir copi o'r ymateb at eich cynrychiolydd hefyd.

Pan fydd yr ymateb yn eich cyrraedd, dylech ei ddarllen neu ei drafod gyda'ch cynrychiolydd (os oes gennych un). Bydd eich cynrychiolydd yn edrych ar yr achos y mae Gweinyddwr y Cynllun yn ei gyflwyno ac yn rhoi cyngor ichi o ran a oes gennych chi achos ai peidio. Os nad oes gennych gynrychiolydd, mae'n rhaid i chi ddarllen drwy'r papurau a dod i benderfyniad eich hun.

Os byddwch yn penderfynu peidio â pharhau â'ch apêl ('tynnu eich apêl yn ôl'), rhaid ichi roi gwybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM neu byddant yn bwrw ymlaen ac yn rhoi eich achos gerbron Tribiwnlys. Gallwch dynnu eich apêl yn ôl drwy ffonio neu ysgrifennu at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

# 7. Wedi i Weinyddwr y Cynllun ymateb

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Wedi i ymateb Gweinyddwr y Cynllun gyrraedd, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dechrau gwneud trefniadau ar gyfer gwrando eich apêl.

Os ydych wedi dewis cael penderfyniad ynghylch eich apêl ar sail y papurau, byddwn yn ysgrifennu atoch ar ôl ichi gael eich ymateb, i gadarnhau ein bod yn barod i drefnu gwrandawiad ar eich cyfer. Bydd y llythyr hefyd yn dweud, os oes gennych unrhyw dystiolaeth bellach i'w chyflwyno i gefnogi eich apêl, y dylech ei hanfon at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM cyn pen 28 diwrnod neu roi gwybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM os oes arnoch angen mwy o amser. Bydd y llythyr yn eich gwahodd i gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM os oes unrhyw newid i'r manylion yr ydych wedi'u cyflwyno'n flaenorol, megis eich dewis o wrandawiad.

Dylech wirio'r llythyr hwn i wneud yn siŵr ein bod wedi cofnodi'ch gofynion yn gywir.

Os bydd unrhyw newid, bydd rhaid ichi ddweud wrthym amdano. Gallwch wneud hynny dros y ffôn neu yn ysgrifenedig.

Gallwch hefyd ddweud wrthym os nad ydych eisiau apelio dim mwy. Os nad ydych eisiau apelio dim mwy, y cyfan sydd angen ei wneud yw rhoi gwybod i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eich bod yn dymuno tynnu'r apêl yn ôl. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch wedi penderfynu tynnu'r apêl yn ôl neu bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau â'r trefniadau ar gyfer eich apêl. Gallwch wneud hyn drwy ffonio'r rhif sydd yn y llythyr.

Os yw unrhyw fanylion eraill wedi newid, megis eich dewis o fath o wrandawiad, eich cyfeiriad neu unrhyw beth y credwch sy'n berthnasol i'ch apêl, gofynnwn yn garedig ichi ein ffonio fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion. Os bydd newid o ran y pwy sy'n eich cynrychioli, dylid rhoi gwybod am hynny yn ysgrifenedig.

Os ydych wedi dewis cael gwrandawiad llafar, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r manylion sydd ganddynt amdanoch. Os ydych wedi darllen ymateb Gweinyddwr y Cynllun a bod unrhyw beth wedi newid y dylem wybod amdano, rhowch wybod inni cyn gynted ag y gallwch. Gall hyn fod yn rhywbeth fel dyddiad pan nad ydych ar gael neu efallai eich bod wedi newid eich meddwl ac yr hoffech i'ch apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau yn hytrach na'ch bod chi'n dod i wrandawiad.

Unwaith eto, os ydych eisiau tynnu eich apêl yn ôl, mae'n rhaid ichi ddweud wrthym cyn gynted ag yr ydych wedi penderfynu gwneud hynny. Fel arall, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i wneud trefniadau ar gyfer eich apêl, megis neilltuo ystafelloedd ar gyfer eich gwrandawiad a dyrannu barnwyr i eistedd ar eich achos a threfnu i staff y Tribiwnlys fod yn bresennol i gwrdd â chi pan fyddwch yn mynychu.

## Rhoi eich achos gerbron y Tribiwnlys

Os ydych wedi penderfynu cael penderfyniad ynghylch eich apêl ar sail y papurau, ni fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi gwybod ichi ar ba ddyddiad y gwrandewir eich achos. Mae hyn oherwydd na fyddwch yn dod i'r gwrandawiad a gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM geisio rhoi eich achos gerbron Tribiwnlys ar fyr rybudd.

Os ydych wedi dewis cael gwrandawiad llafar, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi gwybod ichi am y gwrandawiad yn ysgrifenedig. Byddwch yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd o'r gwrandawiad oni bai eich bod wedi dweud wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eich bod yn fodlon derbyn llai o rybudd na hynny. Bydd y llythyr sy'n rhoi gwybod ichi am y gwrandawiad yn dweud wrthych beth fydd amser a dyddiad eich gwrandawiad a chyfeiriad y ganolfan Tribiwnlys. Bydd y llythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ad-dalu costau teithio a threuliau eraill yn ogystal â chyfarwyddiadau sut i gyrraedd y ganolfan wrandawiadau, gwybodaeth ynghylch cysylltiadau trafnidiaeth, hygyrchedd a chyfleusterau yn y lleoliad.

Ar ôl trefnu dyddiad, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwneud ei orau i osgoi canslo. Gobeithiwn, yn gyfnewid am hyn, y byddwch yn osgoi gofyn i gael gohirio'r gwrandawiad, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, megis salwch neu brofedigaeth. Os na allwch fod yn bresennol, dylai unrhyw gais i gael gohirio'r gwrandawiad fod yn ysgrifenedig. Byddwn y cyfeirio'r cais at Farnwr Tribiwnlys a fydd yn gwneud penderfyniad yn ei gylch. Mae gan y Tribiwnlys y pŵer i wrando eich apêl yn eich absenoldeb. Oherwydd hyn mae'n bwysig nad ydych chi neu eich cynrychiolydd, os oes gennych un, yn cymryd yn ganiataol y bydd eich apêl yn cael ei gohirio, nes eich bod wedi cael cadarnhad gennym ni.

Os byddwch mewn sefyllfa lle na allwch roi llawer o rybudd nad ydych ar gael, ar ddiwrnod y gwrandawiad er enghraifft, ac ni allwch wneud cais ysgrifenedig am ohiriad, dylech ffonio swyddfa'r Tribiwnlys cyn gynted â phosib. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys am eich amgylchiadau a bydd y Tribiwnlys yn penderfynu a fydd yn gwneud penderfyniad ynghylch eich apêl ynteu'n gohirio'r apêl tan ddiwrnod arall pan fyddwch yn gallu bod yn bresennol.

# 8. Paratoi ar gyfer y gwrandawiad Tribiwnlys

## Tystiolaeth

Byddwch eisiau ystyried pa dystiolaeth y mae arnoch ei hangen i gefnogi eich achos, gan fod y mwyafrif o apeliadau'n cynnwys rhywfaint o ddadlau dros ffeithiau'r achos.

Bydd Gweinyddwr y Cynllun wedi nodi yn eu hymateb pa dystiolaeth y byddant yn dibynnu arni i gefnogi'r penderfyniad yr ydych wedi apelio yn ei erbyn. Byddai'n anarferol pe byddai Gweinyddwr y Cynllun yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd yn y gwrandawiad Tribiwnlys.

Y math o dystiolaeth y gallech ei chyflwyno, yn gyntaf oll, yw'r hyn y gallwch chi eich hun ddweud wrth y Tribiwnlys. Weithiau mae'n hawdd anghofio bod yr hyn a ddywedwch wrth y Tribiwnlys yn cael ei ystyried yn 'dystiolaeth'. Bydd y Tribiwnlys yn ei drin fel tystiolaeth, gan roi'r pwysigrwydd priodol iddo a chofnodi'r prif bwyntiau yn ysgrifenedig

Efallai y bydd pobl eraill hefyd yn gallu darparu tystiolaeth i'r Tribiwnlys. Os ydych yn meddwl y byddai o gymorth, gallech fynd â thyst neu dystion gyda chi. Er enghraifft, os yw eich apêl yn ymwneud â natur y gwaith yr oeddech yn ei wneud pan ddaethoch i gysylltiad ag asbestos, efallai y gallai rhywun oedd yn arfer gweithio â chi roi gwybodaeth ddefnyddiol a fydd o gymorth i'r Tribiwnlys.

Os hoffech i rywun fod yn bresennol yn y gwrandawiad fel tyst, dylech wneud yn siŵr eu bod yn gwybod pryd a ble i fod yn bresennol. Nid yw rhywun sydd ddim yn fodlon bod yn dyst yn wirfoddol yn debygol o fod yn dyst da. Byddai o gymorth pe baech yn dweud wrth Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM os ydych yn bwriadu dod â thyst gyda chi. Os ydych eisiau i rywun o gwmni Gweinyddwr y Cynllun fod yn dyst (er enghraifft, aelod o staff y gwnaethoch siarad â nhw dros y ffôn), dylech wneud cais ysgrifenedig i Weinyddwr y Cynllun yn gofyn i'r unigolyn dan sylw fod yn bresennol. Gallwch ysgrifennu at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM os byddant yn gwrthod. Ond cofiwch nad oes gan y Tribiwnlys bŵer cyfreithiol i orfodi rhywun i fod yn bresennol.

Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfen hefyd. Yn dibynnu wrth gwrs ar y ffeithiau yr ydych eisiau eu profi, gallai'r dystiolaeth fod, er enghraifft, yn ddatganiad tyst ysgrifenedig gan rywun oedd yn arfer gweithio â chi neu slipiau cyflog yn dangos y cyfnod yr oeddech yn gweithio i gyflogwr penodol.

Os oes gennych ddogfennau yr ydych eisiau eu defnyddio i gefnogi eich apêl, anfonwch y nhw (neu lungopïau ohonynt) at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM mor fuan â phosib yn y broses apelio. Peidiwch ag aros nes byddwch yn y gwrandawiad Tribiwnlys. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau pwysig ar y funud olaf, gallai'r Tribiwnlys benderfynu bod rhaid gohirio'r gwrandawiad, fel bod y Tribiwnlys a Gweinyddwr y Cynllun yn cael cyfle teg i ystyried y dystiolaeth hwyr yn llawn ac nad ydynt yn cael eu rhuthro. Os byddwch yn anfon dogfennau at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fel tystiolaeth, byddwn yn gwneud copïau ac yn eu hanfon at Weinyddwr y Cynllun cyn eu dychwelyd atoch. Cofiwch, fel arfer, fod gan Weinyddwr y Cynllun yr hawl i weld unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu hanfon atom. O ran tegwch, bydd y ddwy ochr yn cael y cyfle i weld a herio'r dystiolaeth sy'n mynd gerbron y Tribiwnlys.

Mae tystiolaeth feddygol yn aml yn ddefnyddiol iawn wrth benderfynu ynghylch apêl. Boed yn lythyr gan feddyg, yn adroddiad gan feddyg ymgynghorol neu'n gopi o gofnodion meddygol, mae'n bwysig ei fod yn berthnasol ac yn amserol. Weithiau byddwn yn cael llythyrau gan bobl sy'n gwneud apêl sy'n gwahodd y Tribiwnlys i ffonio neu ysgrifennu at eu meddyg i ofyn am wybodaeth. Ni allwch gymryd yn ganiataol y bydd y Tribiwnlys yn gwneud hynny. Eich cyfrifoldeb chi, nid y Tribiwnlys, yw paratoi eich achos. Mae'r Tribiwnlys yn niwtral. Os ydych chi (neu eich cynrychiolydd) yn meddwl y byddai tystiolaeth feddygol yn cefnogi eich achos, dylech geisio cael gafael ar y dystiolaeth honno – yn fuan yn ystod y broses apelio. Efallai yr hoffech gadw mewn cof fod gennych hawl, fel claf, i gael copi o'ch cofnodion meddygol gan eich meddyg, ond efallai y bydd rhaid ichi dalu ffi.

Os byddwch yn cael tystiolaeth feddygol, anfonwch y dystiolaeth honno atom cyn gynted â phosib. Peidiwch ag aros tan ddyddiad eich gwrandawiad.

Fel eithriad, gall y Tribiwnlys ei hun gomisiynu tystiolaeth feddygol. Yr unig adeg y bydd hyn yn digwydd yw pan na fydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud penderfyniad ynghylch yr apêl heb gael tystiolaeth bellach. Ac eithrio yn y sefyllfa hon, ni fydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn talu neu'n ad-dalu ffioedd meddygol.

## Ymchwilio i'r gyfraith

Bydd penderfyniad y Tribiwnlys yn seiliedig ar gymhwyso'r gyfraith berthnasol i ffeithiau'r achos. Bydd y Tribiwnlys yn ceisio delio â materion y ffordd rwyddaf bosib. Fodd bynnag, mae dan rwymedigaeth gan y gyfraith sy'n berthnasol i geisiadau'r Cynllun a'i reolau trefniadol ei hun, a all fod yn gymhleth weithiau.

Gallwch ymchwilio i'r gyfraith:

- Mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;
- Ar wefannau, megis www.legislation.gov.uk ar gyfer Deddfau Seneddol a rheoliadau, ac www.osscsc.gov.uk/Decisions/decisions.htm ar gyfer penderfyniadau cyfreithiol hanesyddol.
- Mewn cyfeirlyfrau cyfreithiol (bydd y rhain gan gynrychiolwyr proffesiynol).

Efallai y gwelwch fod yr ymateb a gewch gan Weinyddwr y Cynllun yn cynnwys cyfeiriadau at benderfyniadau cyfreithiol hanesyddol y maent yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r materion cyfreithiol yn eich apêl. Efallai y byddwch chi, neu eich cynrychiolydd, eisiau cyflwyno penderfyniadau cyfreithiol hanesyddol eraill. Os byddwch, anfonwch y manylion atom mewn da bryd cyn y gwrandawiad.

Ni all Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ymchwilio i'r gyfraith ar eich rhan na darparu dyfyniadau ichi.

## Paratoi eich ymateb eich hun

Os ydych o'r farn nad yw'r ymateb a gawsoch gan Weinyddwr y Cynllun yn rhoi crynodeb cywir o'ch achos, efallai y byddwch yn dymuno paratoi eich ymateb eich hun, yn nodi'r ffeithiau fel yr ydych chi'n eu gweld a'r gyfraith fel yr ydych chi'n ei dehongli. Dylech anfon eich ymateb atom cyn y gwrandawiad. Byddwn yn anfon copi at Weinyddwr y Cynllun.

Cofiwch, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn anfon yr holl bapurau sy'n ymwneud â'r apêl at aelodau'r Tribiwnlys o leiaf 10 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Tribiwnlys astudio'r papurau a chanfod unrhyw broblemau a all effeithio ar gynnal y gwrandawiad. O ganlyniad, mae llai o risg o orfod gohirio ac mae hyd y gwrandawiad yn lleihau. Felly, mae arnom angen ichi anfon atom eich tystiolaeth ysgrifenedig ac unrhyw argymhellion yr hoffech eu gwneud mewn da bryd cyn y gwrandawiad.

Cofiwch y byddwn yn anfon copi o unrhyw dystiolaeth a gawn gennych at Weinyddwr y Cynllun. Gorau po gyntaf y bydd Gweinyddwr y Cynllun yn cael eich tystiolaeth, er mwyn iddynt allu gweld cyn gynted â phosib a yw'n caniatáu iddynt newid y penderfyniad y maent wedi'i wneud ai peidio.

# 9. Cadw mewn cysylltiad

## Pethau y mae angen inni wybod amdanynt os ydynt yn newid

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod inni os bydd eich amgylchiadau'n newid o gwbl, fel y gallwn ddarparu'r math o wrandawiad yr ydych eisiau, cwrdd ag unrhyw anghenion arbennig sydd gennych a chyfathrebu â chi yn y cyfeiriad cywir. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithredu ar wahân i Weinyddwr y Cynllun, felly hyd yn oed os ydych wedi rhoi gwybod i Weinyddwr y Cynllun am gyfeiriad newydd, bydd rhaid ichi wneud yr un fath ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig neu dros y ffôn.

Mae'n rhaid ichi ddweud wrthym:

- Os yw eich cyfeiriad cartref wedi newid;
- Os oes gennych gynrychiolydd newydd yn gweithredu ar eich rhan (neu fod eich cynrychiolydd wedi newid);
- Os ydych wedi newid eich meddwl ynghylch y math o wrandawiad rydych eisiau (llafar/papur);
- Os na allwch fod yn bresennol neu os ydych wedi penderfynu nad ydych am fod yn bresennol mewn gwrandawiad sydd wedi'i drefnu; neu
- Os nad ydych eisiau apelio mwyach – apêl wedi'i 'thynnu'n ôl'.

Os oes gennych gynrychiolydd newydd, mae'n rhaid ichi roi gwybod inni yn ysgrifenedig gan fod arnom angen eich caniatâd ysgrifenedig i gymryd cyfarwyddiadau gan rywun sy'n gweithredu ar eich rhan. Fel arfer, bydd eich cynrychiolydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.

# 10. Mynd i'ch gwrandawiad

## Y rhybudd o wrandawiad

Byddwch wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad a lleoliad y gwrandawiad. Byddwch wedi cael amser hefyd. Mae tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau rhwng 10am a 12:45pm a rhwng 2pm a 4:45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar benwythnosau mewn rhai lleoliadau. O dro i dro, gellir parhau tu hwnt i'r oriau hynny er mwyn gallu cwblhau apêl sydd wedi cychwyn. Mewn sesiwn bore neu brynhawn, bydd gan y Tribiwnlys fel arfer rhwng tri a phump apêl i'w cynnal ar yr amserlen, yn dibynnu ar y math o achos dan sylw.  Yr amser sydd ar eich rhybudd o wrandawiad yw'r amser y disgwylir y bydd eich gwrandawiad yn cael ei gynnal.

## Mynd i'r gwrandawiad

Os oes arnoch angen help gyda chostau teithio, gall Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ad-dalu costau teithio rhesymol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbyd modur preifat. Gallwch wneud hyn drwy lenwi ffurflen hawlio ar ôl eich gwrandawiad a bydd taliad yn cael ei wneud i'ch cyfrif banc. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn talu costau teithio cyn y gwrandawiad.  Bydd angen ichi gadw unrhyw dderbynebau a thocynnau teithio i brofi eich bod wedi eu prynu a chynnwys y rhain yn eich hawliad.  Os na allwch ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft oherwydd anabledd, gall Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM awdurdodi taliad am ffi tacsi, ond dim ond os yw hyn wedi'i gytuno ymlaen llaw.  Bydd eich rhybudd o wrandawiad yn esbonio'r rheolau ynghylch hawlio costau teithio.

Dylech gynllunio eich taith fel eich bod yn cyrraedd o leiaf 5 munud cyn dechrau'r gwrandawiad.  Dylech fynd ag ymateb Gweinyddwr y Cynllun a chopïau gwreiddiol o unrhyw ddogfennau yr ydych wedi eu hanfon atom fel tystiolaeth gyda chi.

Os ydych yn debygol o fod yn hwyr ar gyfer eich gwrandawiad, cofiwch ein ffonio ni ac fe rown wybod i'r Tribiwnlys.

Os ydych yn debygol o fod yn hwyr ar gyfer eich gwrandawiad, cofiwch ein ffonio ni ac fe rown wybod i'r Tribiwnlys.

Os ydych wedi penderfynu yn y pen draw i beidio â dod i'r gwrandawiad, dylech ein ffonio i roi gwybod inni. Mae gennych hawl i wneud hyn, ond mae o gymorth os ydym yn gwybod am hyn fel nad yw'r Tribiwnlys yn aros amdanoch ar y diwrnod ac nad yw ein staff yn gwastraffu amser yn ceisio cysylltu â chi i weld a ydych yn rhedeg yn hwyr.

## Yn y gwrandawiad

Pan fyddwch yn cyrraedd lleoliad y Tribiwnlys, bydd Clerc y Tribiwnlys yn dod i gwrdd â chi.

Mae Clerc y Tribiwnlys yn aelod o staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sydd wedi'i benodi i sicrhau bod gwrandawiadau'n mynd rhagddynt mor rhwydd â phosib. Cyfrifoldeb y clerc yw esbonio'r broses ichi, ateb unrhyw gwestiynau, delio â hawliadau am gostau teithio neu gostau eraill a delio â'r tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'ch gwrandawiad. Mae'n rhaid i'r clerc gadw mewn cysylltiad â'r Tribiwnlys hefyd, gan ddweud wrthynt pwy sydd wedi cyrraedd a chynorthwyo'r Tribiwnlys gyda theipio'r hysbysiad o benderfyniad a delio ag unrhyw waith papur. Mae'r clerc hefyd yn cadw mewn cysylltiad â swyddfa'r Tribiwnlys, gan ddelio â negeseuon funud olaf a geir dros y ffôn, megis negeseuon gan bobl sy'n rhedeg yn hwyr.

Bydd y Tribiwnlys yn gwneud pob ymdrech i gychwyn eich gwrandawiad ar yr amser sydd ar eich hysbysiad o wrandawiad, ond oherwydd nad yw'n bosib bob amser rhagweld pa mor hir fydd pob apêl yn para, efallai y bydd yr amser cychwyn ychydig yn hwyrach.

Pan fyddwch yn cyrraedd, bydd y clerc yn eich mynd â chi i ystafell aros ac yn rhoi syniad ichi o ba bryd y bydd eich gwrandawiad apêl yn cychwyn. Bydd y clerc yn delio ag unrhyw hawliad am gostau sydd gennych ac unrhyw ymholiadau funud olaf ynghylch trefniadau'r gwrandawiad. Mae croeso ichi ofyn i'ch clerc unrhyw gwestiynau ynghylch y gwrandawiad a'i weithdrefnau.

Bydd y clerc hefyd yn bresennol o dro i dro yn ystafell y Tribiwnlys yn ystod y gwrandawiad rhag ofn y bydd angen cymorth gweinyddol ar y Tribiwnlys. Nid yw'r clerc yn cymryd unrhyw ran ym mhroses benderfynu y Tribiwnlys.

Fel sy'n wir am y mwyafrif o adeiladau'r llywodraeth, bydd swyddog diogelwch hefyd yn bresennol ar y safle.

## Y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys wedi'i ffurfio o aelodau o banel barnwrol a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor. I gael eu penodi, mae'n rhaid i aelodau'r panel fod wedi cymhwyso yn y gyfraith, meddygaeth neu gyfrifyddiaeth neu ym maes anableddau, a meddu ar rinweddau personol sy'n briodol i unigolion mewn swyddi barnwrol. Mae bod yn annibynnol a diduedd yn rhai o'r rhinweddau hynny.

Mae cyfansoddiad y Tribiwnlys yn amrywio yn dibynnu ar y math o achos dan sylw. Ar gyfer llawer o achosion, barnwr yn eistedd ar ei ben ei hun fydd y Tribiwnlys. Fodd bynnag, gellir penodi meddyg arbenigol i eistedd ar y Tribiwnlys mewn rhai apeliadau. Mater i'r barnwr yw'r penderfyniad ynghylch cyfansoddiad y Tribiwnlys.

Os ydych yn adnabod aelod o'r Tribiwnlys sy'n gwrando eich apêl, dylech ddweud wrth y Tribiwnlys ar ddechrau'r apêl oherwydd efallai y bydd yn amhriodol i'r unigolyn hwnnw fod yn rhan o'ch achos. Yn yr un modd, os bydd aelod o'r Tribiwnlys yn eich adnabod chi, ni fyddant yn gallu ystyried eich achos.

## Eraill fydd yn bresennol

Mae gan Weinyddwr y Cynllun hawl i anfon cynrychiolydd (a elwir yn 'Swyddog Cyflwyno') i gymryd rhan yng ngwrandawiad eich apêl. Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn astudio pob apêl fesul achos ac ni fydd yn anfon Swyddog Cyflwyno oni bai eu bod o'r farn bod angen un. Gallwch chi neu eich cynrychiolydd gwrdd â'r Tribiwnlys ar eich pen eich hun.

Yn ôl y gyfraith, mae gwrandawiadau Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd, ond mae'n deg dweud ei fod yn anarferol iawn i aelod o'r cyhoedd fod yn bresennol. Gallwch ofyn i'r Tribiwnlys wahardd y cyhoedd rhag dod i'r gwrandawiad er mwyn eich preifatrwydd personol.

## Trefn y Tribiwnlys

Mae Tribiwnlysoedd yn rhannu rhai o nodweddion y llysoedd, ond nid y cyfan ohonynt.

Mae Tribiwnlysoedd yn debyg i lysoedd o ran eu bod:

- Yn gweithredu o fewn set o reolau a osodir gan y gyfraith;
- Yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth;
- Yn farnwyr cwestiynau ynghylch ffeithiau a'r gyfraith;
- Yn penderfynu ar ffeithiau ar sail gwrando a phrofi tystiolaeth;
- Yn gorfod bod yn deg â'r ddwy ochr neu bob ochr.

Mae Tribiwnlysoedd yn wahanol i lysoedd o ran:

- Fod ystafell Tribiwnlys wedi'i threfnu mewn ffordd llai ffurfiol;
- Nad oes neb yn gwisgo wig na gŵn;
- Bod aelodau'r Tribiwnlys yn cael eu cyfarch fel Mr...neu Mrs/Miss/Ms...neu Dr;
- Bod pobl yn rhoi tystiolaeth wrth eistedd wrth fwrdd, nid o flwch tystion;
- Nad yw tystiolaeth yn cael ei rhoi ar lw neu gadarnhad fel arfer;
- Wrth wrando tystiolaeth, bydd y Tribiwnlys ei hun yn arwain o ran gofyn cwestiynau .

Mater i'r Barnwr Tribiwnlys yw penderfynu sut y cynhelir y gwrandawiad. Mae'r gyfraith yn rhoi'r pŵer hwnnw i'r Barnwr. Bydd trefn yr achos yn amrywio o un achos i'r llall, yn dibynnu ar natur y materion i'w penderfynu. Mae'r canlynol yn ddisgrifiad cyffredinol o wrandawiad arferol:

## Cyflwyniadau

Bydd y Barnwr Tribiwnlys yn cyflwyno pawb sy'n bresennol ac yn dweud sut byddant yn cymryd rhan yn yr achos, ac yn gwirio bod unrhyw wasanaethau cyfieithu neu arwyddo sydd eu hangen yn addas. Bydd y Barnwr hefyd yn sicrhau bod gan bawb yr holl setiau papurau angenrheidiol. Bydd y barnwr yn cadw cofnod ffurfiol o'r achos - 'y cofnod o'r achos'.

## Datganiadau agoriadol

Bydd y Barnwr Tribiwnlys yn crynhoi'r materion yn yr apêl yn ôl y papurau ac yn cytuno â'r partïon sy'n bresennol beth y mae angen rhoi sylw iddo yn y gwrandawiad ac ym mha drefn. Mae hwn yn gyfle i gynrychiolwyr wneud datganiad agoriadol yn amlinellu eu hachos, os yw'r Barnwr Tribiwnlys yn eu gwahodd i wneud hynny.

## Rhoi tystiolaeth

Mewn llys, y ffordd y rhoddir tystiolaeth yw bod y cyfreithiwr ar ran un ochr yn gofyn cwestiynau i dyst, yna bydd y cyfreithiwr ar ran yr ochr arall yn gofyn cwestiynau i'r tyst. Mewn Tribiwnlys, lle mae'n beth prin i unrhyw ochr fod â chynrychiolydd cyfreithiol, mae'r Tribiwnlys yn cymryd y cyfrifoldeb am ofyn y cwestiynau. Cofiwch y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Tribiwnlys yn debygol o fod eisiau canolbwyntio ar y materion sy'n destun dadl, felly peidiwch â phoeni os nad yw'r Tribiwnlys yn gofyn cwestiynau ynghylch pob agwedd ar eich achos.
- Os oes anghysondeb yn y dystiolaeth (er enghraifft, efallai eich bod wedi dweud un peth yn eich ffurflen hawlio ond rydych yn dweud rhywbeth gwahanol wrth y Tribiwnlys), mae'r Tribiwnlys yn debygol o ofyn cwestiynau a allai fod yn eithaf treiddgar er mwyn ceisio canfod beth yw'r gwir ffeithiau.
- Bydd y Tribiwnlys yn gwneud ei orau i sicrhau nad ydych yn anghofio neu'n methu unrhyw bwyntiau yn eich achos.
- Yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud ag anabledd, efallai y bydd y Tribiwnlys yn gweld angen i holi am faterion personol neu faterion a allai achosi embaras. Bydd yn gwneud pob ymdrech i fod yn sensitif wrth wneud hynny.
- Mae rhoi tystiolaeth yn rhan ddifrifol a phwysig o'r achos. Ni ddylai cynrychiolwyr nac eraill darfu arnoch chi na'r Tribiwnlys. Bydd pawb yn cael ei dro i siarad ar yr adeg briodol.
- Ar ôl i'r Tribiwnlys orffen gofyn ei gwestiynau, os ydych yn meddwl ei fod wedi methu rhywbeth, dywedwch wrth y Barnwr. Bydd y Barnwr hefyd yn caniatáu cwestiynau perthnasol gan unrhyw gynrychiolwyr.

## Archwiliad meddygol

Yn ôl y gyfraith, ni chaniateir archwiliad meddygol fel rhan o'r gwrandawiad Tribiwnlys. Mae hyn yn cynnwys apeliadau'r Cynllun. Fodd bynnag, gellir ei ganiatáu mewn apeliadau sy'n cynnwys anafiadau diwydiannol eraill.

## Tystion

Bydd y Tribiwnlys yn gwrando tystiolaeth gan unrhyw dystion eraill yn dilyn eich tystiolaeth chi. Ni fydd y Swyddog Cyflwyno ar ran Gweinyddwr y Cynllun yn dyst fel arfer, oherwydd ei bod yn annhebygol y byddant wedi chwarae unrhyw ran flaenorol wrth ddelio â'ch cais.

## Datganiadau cloi

Wedi i bawb orffen rhoi tystiolaeth, bydd y Barnwr yn gwahodd datganiadau cloi. Mae hwn yn gyfle i gynrychiolwyr o'r ddwy ochr grynhoi'r achos.

## Y penderfyniad

Bydd y Tribiwnlys yn ystyried y dystiolaeth a'r datganiadau yn breifat. Bryd hynny, bydd clerc y Tribiwnlys yn mynd â chi yn ôl i'r ystafell aros. Yn y mwyafrif o achosion bydd y Barnwr yn eich gwahodd i aros tra bydd y Tribiwnlys yn dod i benderfyniad. Fodd bynnag, os bydd y Barnwr yn meddwl ei bod yn annhebygol y gellir gwneud penderfyniad yn eithaf cyflym, rhoddir gwybod ichi y bydd y penderfyniad yn cael ei anfon atoch drwy'r post. Os bydd y Tribiwnlys yn gallu rhoi ei benderfyniad ar y diwrnod, byddwch yn cael eich gwahodd yn ôl i'r ystafell Tribiwnlys er mwyn i'r Barnwr gyhoeddi ei benderfyniad. Byddwch yn cael hysbysiad o benderfyniad wedi'i deipio hefyd. Bydd yr apêl yn dod i ben ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad ac ni fydd trafodaeth bellach.

## Gohirio

Efallai y bydd y Tribiwnlys yn dod i'r casgliad na all wneud penderfyniad ar y diwrnod a bod rhaid gohirio. Wrth ohirio, bydd y Tribiwnlys yn ceisio pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad nesaf a rhoi cyfarwyddiadau i leihau'r risg o unrhyw oedi pellach cyn cwblhau'r achos.

Amlinelliad cyffredinol yw'r disgrifiad uchod. Weithiau bydd Tribiwnlys wedi ffurfio barn wrth ddarllen papurau'r apêl fod yr apêl yn troi o gwmpas un mater a gall benderfynu canolbwyntio ar y pwynt hwnnw o ddechrau'r gwrandawiad.

# 11. Wedi i'r Tribiwnlys wneud ei benderfyniad

## Gweithredu'r penderfyniad

Os ydych wedi cael gwrandawiad llafar, bydd hysbysiad yn rhoi penderfyniad y Tribiwnlys yn cael ei roi i chi ac i Weinyddwr y Cynllun, neu'n cael ei anfon atoch, ar ddiwrnod y gwrandawiad. Os daethpwyd i benderfyniad ynghylch eich achos ar sail y papurau, byddwch yn cael hysbysiad o'r penderfyniad drwy'r post ddiwrnod neu ddau ar ôl y gwrandawiad ac anfonir copi o'r penderfyniad at Weinyddwr y Cynllun hefyd.

**Yn wahanol i'r llysoedd, nid oes gan y Tribiwnlys bwerau cyfreithiol i orfodi ei benderfyniadau.** Os yw'r penderfyniad yn dweud bod rhaid i Weinyddwr y Cynllun dalu swm o arian ichi, ni fydd y Tribiwnlys yn gallu eich helpu i'w gorfodi i dalu. Os yw'r penderfyniad yn dweud bod gan Weinyddwr y Cynllun hawl i adennill symiau o arian gennych, unwaith eto, ni fydd y Tribiwnlys yn chwarae unrhyw ran yng ngorfodi'r penderfyniad hwnnw.

Yn ymarferol, bydd Gweinyddwr y Cynllun yn gweithredu penderfyniad y Tribiwnlys yn y mwyafrif llethol o achosion a'r unig adeg y byddent yn gwrthod gwneud hyn fyddai os ydynt yn bwriadu apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys.

**Mae gan Weinyddwr y Cynllun hawl i ohirio talu unrhyw arian a ddyfarnwyd ichi gan y Tribiwnlys os ydynt yn bwriadu apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys.**

Wedi i'r Tribiwnlys wneud ei benderfyniad, **dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch sut fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu at Weinyddwr y Cynllun, gan mai nhw sydd â chyfrifoldeb am weithredu penderfyniad y Tribiwnlys.** Dylech ddisgwyl ychydig o oedi wedi i Weinyddwr y Cynllun gael y penderfyniad, tra byddant yn ystyried y canlyniad a'r camau nesaf.

## Cywiriadau

Os ydych o'r farn fod yr hysbysiad o benderfyniad yn cynnwys gwall damweiniol (er enghraifft, efallai bod y Barnwr wedi ysgrifennu 2016 yn lle 2012 fel dyddiad cychwyn y dyfarniad), cewch ysgrifennu atom i ofyn am gywiriad. Mae'r rheol hon yn berthnasol i bethau y gellid eu galw'n 'llithriad ysgrifbin' yn unig.

## Rhoi o'r naill du

Gallwch wneud cais i gael penderfyniad y Tribiwnlys wedi'i roi o'r naill du (hynny yw, ei ganslo) ac i drefnu gwrandawiad arall mewn amgylchiadau cyfyngedig. Yr amgylchiadau yw:

- Bod dogfen sy'n ymwneud â'r achos (er enghraifft, hysbysiad o'r gwrandawiad) heb gael ei hanfon neu heb gyrraedd mewn pryd, neu
- Bod gwrandawiad wedi cael ei drefnu ond nid oeddech chi (neu eich cynrychiolydd neu Weinyddwr y Cynllun) yn bresennol a bod y Tribiwnlys yn derbyn yr esboniad am ddiffyg presenoldeb, neu
- Bod anghysondeb arall wedi codi o ran y trefniadau.

Bydd y Tribiwnlys yn gosod y penderfyniad o'r naill du os yw un o'r amodau uchod yn berthnasol a bod y Tribiwnlys yn ystyried ei bod yn gyfiawn gwneud hynny.

Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i gael penderfyniad wedi'i osod o'r naill du cyn pen mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad neu'r datganiad o'r rhesymau, pa bynnag un yw'r hwyraf. Gall y Tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn os oes rhesymau da dros wneud hynny.

## Apêl bellach

Gallwch wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Cewch apelio ar sail 'gwall cyfreithiol' **yn unig**. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn y mae 'gwall cyfreithiol' yn ei olygu:'

- Mae'r Tribiwnlys wedi cymhwyso'r gyfraith yn anghywir
- Mae'r Tribiwnlys wedi cynnal yr achos yn groes i'r drefn gywir
- Methodd y Tribiwnlys â chanfod y ffeithiau'n ddigonol neu roi rhesymau digonol dros ei benderfyniad.

Y cam cyntaf wrth wneud cais am ganiatâd i apelio yw gofyn am ddatganiad o resymau dros benderfyniad y Tribiwnlys. Rhaid gwneud y cais am ddatganiad yn ysgrifenedig o fewn un mis calendr i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad. Gall y Tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn. Bydd y datganiad wedi'i ysgrifennu gan Farnwr y Tribiwnlys a wrandawodd eich apêl.

Ar ôl ystyried y datganiad o'r rhesymau, os ydych o'r farn fod penderfyniad y Tribiwnlys yn wallus o safbwynt cyfreithiol, cewch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Rhaid i'r cais hwn fod yn ysgrifenedig. Gellir darparu ffurflen at y diben hwn ar gais. Mae gennych fis o ddyddiad cyhoeddi'r datganiad i wneud cais am ganiatâd. Gall y Tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn.

Uwch Farnwr Tribiwnlys fydd yn ystyried cais am ganiatâd i apelio.
Gall y Barnwr:

- Roi caniatâd - os felly, cewch anfon eich apêl ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys;
- Gwrthod caniatâd. Wedyn, bydd gennych yr opsiwn o ofyn i'r Uwch Dribiwnlys yn uniongyrchol am ganiatâd.
- Penderfynu gosod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du heb fod angen cyfeirio'r achos at yr Uwch Dribiwnlys. Gall y Barnwr ailbenderfynu'r achos neu drefnu bod Tribiwnlys newydd yn ei wrando.

Os bydd yr apêl yn mynd ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys, mae gan yr Uwch Dribiwnlys bŵer i osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du a chyfeirio'r achos at Dribiwnlys newydd, neu i newid eu penderfyniad eu hunain.

Cofiwch, mae'r hawliau uchod i wneud cais am gywiriad, i osod o'r naill du, am ddatganiad o'r rhesymau ac am apêl bellach ar gael i Weinyddwr y Cynllun hefyd.

 © Hawlfraint y Goron 2018